| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 13 Mawrth 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 2** |
| **Teitl:** | **Adroddiad ar yr Adolygiad o'r Mesurau i Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc sy'n cael Triniaeth a Gofal gan yr NHS yng Nghymru** |

**Pwrpas**

1. Rhoi gwybodaeth gyffredinol i'r Pwyllgor am yr adroddiad ar adolygiad Carlile: *Adolygiad o'r Mesurau i Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc sy'n cael Triniaeth a Gofal gan yr NHS yng Nghymru* a gwahodd aelodau i wneud sylwadau ar yr argymhellion yn yr Adroddiad.

**Cefndir**

2. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar adolygiad Carlile, *Adolygiad o'r Mesurau i Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc sy'n cael Triniaeth a Gofal gan yr NHS yng Nghymru* ar 5 Mawrth 2002.

3. Gofynnwyd i'r Panel Adolygu, a sefydlais ym mis Medi 2000, ac a gadeirwyd gan yr Arglwydd Carlile o Aberriw QC, i ystyried mesurau i amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n cael triniaeth a gofal gan y GIG yng Nghymru.

4. Penderfynwyd cynnal yr adolygiad ar ôl clywed tystiolaeth yr Ymchwiliad i Gam-drin Plant yng Ngogledd Cymru 'Ar Goll Mewn Gofal', o dan gadeiryddiaeth Syr Ronald Waterhouse. Clywodd y Tribiwnlys honiadau cyn gleifion Gwynfa, clinig iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng ngogledd Cymru. Mae'r uned wedi'i chau ers hynny. Daeth y tribiwnlys i'r casgliad na allai ystyried yr honiadau hyn gan eu bod y tu hwnt i'w gylch gorchwyl gan nad oedd y plant yng ngofal yr awdurdod lleol. Addawodd y Swyddfa Gymreig wrth y Tribiwnlys y byddai'r asiantaethau priodol yn ymchwilio'n iawn i bob honiad ac y byddai'n sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal priodol ac yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol yn erbyn camdriniaeth ym mhob uned o'r fath yng Nghymru.

5. Felly, ym Mehefin 1998, gwahoddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd y Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd 2000 (HAS) i gynnal arolygiad o'r ddau glinig a'r ddwy ward gysylltiedig i oedolion a oedd weithiau'n derbyn pobl ifanc. Gwnaeth HAS 2000 nifer o argymhellion ar gyfer gwella'r mesurau amddiffyn. Ym mis Rhagfyr 1999 gwahoddwyd HAS i gynnal arolygiad dilynol i fonitro'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion. Dywedodd HAS ei fod yn fodlon bod

mesurau digonol ar gyfer amddiffyn cleifion yn yr unedau hyn.

6. Gofynnwyd i'r Panel Adolygu gynnal adolygiad polisi o fesurau amddiffyn y GIG, gan ystyried y gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd a Syr Ronald Waterhouse. Mae canllawiau perthnasol, arferion gorau a datblygiadau eraill hefyd wedi cael eu hystyried. Roedd yr adolygiad yn mynd i'r afael â phob agwedd ar wasanaethau'r GIG, ac nid oedd wedi'i gyfyngu'n unig i wasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol.

**Crynodeb o'r Adroddiad**

7. Mae 150 o argymhellion yn Adroddiad Carlile ar gyfer gwella safonau a gwella mesurau i amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n cael triniaeth a gofal gan y GIG yng Nghymru. Mae'r argymhellion wedi'u hanelu at Lywodraeth Cynulliad Cymru, yr Awdurdodau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG, Grwpiau Iechyd Lleol, y proffesiwn contractio yn ogystal ag asiantaethau gofal cymdeithasol.

8. Mae'r adroddiad yn dechrau, yn briodol iawn, gyda hawliau plant ac yn ganolog iddo y mae'r angen i wneud plant a'u diogelwch yn flaenoriaeth gan y GIG a hynny pa bryd bynnag a pha le bynnag y mae'n rhaid iddynt ddod i gysylltiad â'r GIG.

9. Mae'n cydnabod bod angen sicrhau bod pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant a'u triniaeth, boed hynny'n Swyddogion Cynulliad Cymru, cyfarwyddwyr anweithredol yn ogystal â doctoriaid, nyrsys a derbynyddion practis yn ymwybodol o hawliau'r plentyn ac yn effro i'r posibilrwydd o gamdriniaeth. Mae'r adroddiad yn awgrymu mai'r ffordd orau o amddiffyn cleifion ifanc fyddai codi ymwybyddiaeth drwy'r GIG o gam-drin plant. Gwneir argymhellion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau eirioli, fel bod llais plant yn cael ei glywed.

10. Mae'r adroddiad yn nodi ei bod yn hanfodol, yn anad dim, recriwtio staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn gallu darparu'n ddiogel ar gyfer anghenion iechyd plant. Yn gysylltiedig â hynny mae'n gwneud nifer o argymhellion i gryfhau polisïau adnoddau dynol drwy'r GIG yng Nghymru. Mae'n cydnabod bod angen gweithdrefnau recriwtio trylwyr ac yn cadarnhau bod angen polisïau sydd wedi'u datblygu'n dda ar gyfer ymdrin â'r rhai sy'n datgelu cyfrinachau, gweithdrefnau disgyblu a chefnogi'r rhai y gwnaed honiadau yn eu herbyn. Mae hefyd yn pwysleisio bod angen cael nifer digonol o staff mewn swyddi allweddol. Mae'r adroddiad yn argymell cynyddu nifer y paediatregwyr a nyrsys plant sydd wedi'u hyfforddi ledled Cymru.

11. Mae'r adroddiad yn cydnabod rôl bwysig doctoriaid a nyrsys penodedig wrth amddiffyn plant ar y lefel strategol a rôl bwysig doctoriaid a nyrsys a enwyd i amddiffyn plant yn yr ymddiriedolaethau ac mae'n argymell y dylid neilltuo amser yn y swyddi hyn er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â'u dyletswyddau ac mae'n gwneud argymhellion ar eu lleoliad o fewn y GIG yn sgil yr ad-drefnu.

12. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion yn ymwneud ag ysbytai a gofal meddygol arbenigol. Mae'n ychwanegu at adroddiad Kennedy ar Ysbyty Brenhinol Bryste yma, ac mae'n gwneud

argymhellion mewn nifer o feysydd megis adrannau damweiniau ac achosion brys a phlant sy'n derbyn triniaeth ar wardiau oedolion.

13. Nid yw'r rhan fwyaf o blant sâl yn cael eu derbyn i'r ysbyty i gael triniaeth. Maent yn dod i gysylltiad â'r GIG drwy eu meddyg teulu, ymwelwr iechyd, nyrsys ysgol a nyrsys practis, deintyddion ac optegwyr. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion a fydd yn codi ymwybyddiaeth y bobl hyn o faterion amddiffyn plant. Rhoddir canmoliaeth i ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol am y gwaith da a wnânt. Mae'r adroddiad yn argymell bod rôl nyrsys ysgol yn cael ei chryfhau a bod llwybrau gyrfa priodol yn cael eu datblygu i annog nyrsys i ymuno â'r maes pwysig hwn.

14. Caiff anghenion y bobl ifanc hyn sy'n agored iawn i niwed eu hystyried yn fanwl yn yr adroddiad. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl, plant y gofelir amdanynt i ffwrdd o'u cartrefi a'r rheini mewn lleoliadau diogel. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion i sicrhau bod y grwpiau hyn sy'n agored i niwed yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da. Yn y fan hon, mae'r adroddiad yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn sgil yr astudiaeth achos a wnaed ar Gwynfa fel ôl-adolygiad o ddigwyddiadau. Yn ogystal â defnyddio'r hyn a gafodd ei ddysgu o'r astudiaeth achos mae'r adroddiad yn nodi bod yr holl gamau a ddylai fod wedi'u cymryd wedi cael eu cymryd.

**Goblygiadau Ariannol**

15. Bydd fy swyddogion yn ystyried y goblygiadau ariannol fel rhan o'r gwaith o lunio ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Cydymffurfio**

16. Sefydlwyd yr adolygiad ar y cyd rhwng y Cynulliad Cenedlaethol â'r GIG o dan y pwerau atodol yn Adran 40 Deddf Llywodraeth Cymru 1998/Government of Wales Act 1998 a chyfranogiad gwirfoddol y GIG. Mae pwerau o dan Adran 40 wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog. Mae'r tîm adolygu yn grwp ad-hoc sy'n gwneud argymhellion i'r Gweinidog a fydd yn penderfynu a gânt eu derbyn ai peidio.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor**

17. Gwahoddir y Pwyllgor i wneud sylwadau ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**